# Dysgu a dilyniant mewn addysg entrepreneuriaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Dysgu a dilyniant mewn addysg entrepreneuriaeth

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, prifathrawon, cyrff llywodraethu, pwyllgorau rheoli, cydlynwyr gyrfaoedd a'r byd gwaith, cydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol ac athrawon a darlithwyr addysg entrepreneuriaeth ym mhob ysgol a gynhelir, colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu yn y gwaith, cynghorwyr Gyrfa Cymru, cydlynwyr Bagloriaeth Cymru, cydlynwyr Sgiliau Hanfodol Cymru, awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a darparwyr rhaglenni hyfforddiant addysg entrepreneuriaeth.

**Trosolwg**

Canllawiau ar sut y dylai darparwyr dysgu gynllunio a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu addysg entrepreneuriaeth.

**Camau i'w cymryd**

Dylai darparwyr dysgu ystyried y canllawiau hyn wrth weithredu eu darpariaeth addysg entrepreneuriaeth.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1707
e-bost: cwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

*Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*; *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru: Canllawiau i ysgolion a cholegau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* (Llywodraeth Cymru, 2011)

ISBN digidol: 978 0 7504 8291 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15430

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| Diffinio addysg entrepreneuriaeth | 2 |
| Cyd-destun addysg entrepreneuriaeth | 4 |
| Pam addysgu entrepreneuriaeth? | 4 |
| **Cynllunio strategol ar gyfer addysg entrepreneuriaeth** | **7** |
| Nodweddion dull sefydledig | 7 |
| Datblygu polisi | 8 |
| **Datblygu addysg entrepreneuriaeth effeithiol** | **10** |
| Datblygu sgiliau drwy addysg entrepreneuriaeth | 10 |
| Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion cynradd | 11 |
| Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion uwchradd (a lleoliadau addysgol eraill sy'n darparu ar gyfer dysgwyr oedran ysgol uwchradd, e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion) | 17 |
| Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion arbennig | 21 |
| Addysg entrepreneuriaeth mewn colegau addysg bellach | 23 |
| Darparu addysg entrepreneuriaeth effeithiol | 27 |
| Cydnabod cyflawniad dysgwyr | 29 |
| Monitro a gwerthuso | 30 |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | **32** |
| **Atodiad A: Templed sampl o bolisi addysg entrepreneuriaeth** | **35** |
| **Atodiad B: Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth** | **38** |

# Cyflwyniad

Mae dysgu yn rhoi'r sgiliau a'r dyheadau i'n poblogaeth i lywio economi lwyddiannus sy'n cynnwys busnesau cystadleuol iawn ac arloesol sy'n cynhyrchu swyddi o ansawdd da a ffyniant cynaliadwy i bawb. Mae gwell entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc yn hanfodol er mwyn hybu ein perfformiad a chreu cyfleoedd.

> "Mae angen i ni greu ysbryd entrepreneuraidd ymhlith disgyblion ein hysgolion, colegau a phrifysgolion gan mai'r grŵp hwn yw'r allwedd i ddyfodol economi Cymru. Mae angen i ni addysgu pobl am y cyfleoedd sydd ar gael a chreu'r uchelgais a'r brwdfrydedd i lwyddo."
>
> Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Mae'r *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15* yn dwyn ynghyd ddimensiynau gwahanol polisïau Datblygu Economaidd ac Addysg Llywodraeth Cymru. Ei nod yw rhoi'r sgiliau entrepreneuraidd a'r agweddau i bobl ifanc rhwng 5 a 25 oed i godi dyheadau fel y gallan nhw gyflawni eu potensial pa ddewisiadau bynnag a wnân nhw yn eu bywyd gwaith yn y dyfodol.

Dylai pob dysgwr yng Nghymru brofi addysg entrepreneuriaeth o safon fel rhan o'i ddatblygiad personol. Dylai'r rhai sy'n arwain, cefnogi a dylanwadu ar bobl ifanc geisio ymgorffori meddylfryd a sgiliau entrepreneuraidd yn eu profiadau dysgu. Mae ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill yn darparu rôl ganolog wrth baratoi pobl ifanc i feithrin y sgiliau, agweddau, gwybodaeth a phrofiadau perthnasol er mwyn datblygu eu gallu i ymddwyn mewn ffordd entrepreneuraidd.

## Diffinio addysg entrepreneuriaeth

Yn y *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15* mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r diffiniadau canlynol.

- Mae a wnelo **addysg entrepreneuriaeth** â datblygu agweddau a sgiliau pobl ifanc i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae a wnelo hefyd â'r brwdfrydedd i wireddu syniadau ac i fanteisio ar gyfleoedd, gan alluogi pobl ifanc i fod yn bositif, yn rhagweithiol ac yn llwyddiannus yn eu hymagwedd at fywyd a gwaith.

- Mae a wnelo **addysg menter** â rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau a datblygu eu dealltwriaeth mewn ffyrdd ymarferol.

Yn yr ymarfer mwyaf effeithiol, mae darparwyr dysgu[1] yn cynllunio entrepreneuriaeth a chyfleoedd dysgu entrepreneuraidd mewn ffordd gydlynol ac integredig. Dylai pob ysgol a choleg yng Nghymru:

- greu diwylliant sy'n cefnogi ymddygiad entrepreneuraidd
- darparu rhaglenni addysg entrepreneuriaeth sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

Yng Nghymru, datblygwyd **model ACPT** o entrepreneuriaeth i ddiffinio'r hyn y mae addysg entrepreneuriaeth yn ei olygu yn ymarferol a rhoi strwythur i ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm.

- **A**gwedd – mae cael agwedd 'gallaf wneud' yn hollbwysig ac mae'n llywio popeth arall.
- **C**readigrwydd – meddwl yn wahanol am fusnes, bod yn arloesol, meddwl am syniadau newydd ac atebion creadigol i broblemau.
- **P**erthynas – cyd-dynnu â phobl, gallu negodi, gwrando arnyn nhw a'u darbwyllo.
- **T**refniadaeth – ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes yn llwyddiannus, gallu rheoli risg ac ymchwilio i'r amgylchedd gwaith.

Nod y canllawiau hyn yw:

- egluro cyd-destun addysg entrepreneuriaeth yng Nghymru
- nodi deilliannau disgwyliedig i ddysgwyr
- helpu â chynllunio strategol
- helpu darparwyr i ymgorffori addysg entrepreneuriaeth
- egluro rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â rheoli addysg entrepreneuriaeth
- nodi cyfleoedd i fynd i'r afael ag addysg entrepreneuraidd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru
- dangos dilyniant mewn dysgu entrepreneuraidd
- sicrhau cynhwysiant pob dysgwr
- pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i ddarparu addysg entrepreneuraidd.

[1] Mae darparwyr dysgu yn cyfeirio at ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

## Cyd-destun addysg entrepreneuriaeth

Ni fu'r gystadleuaeth am swyddi erioed yn fwy. Felly mae'n hollbwysig bod pobl ifanc yn dod yn ymwybodol ac yn weithredol yn entrepreneuraidd fel y gallan nhw addasu i heriau newydd a chael eu symbylu i lwyddo. Mae'r *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15* (Tachwedd 2010), yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi'r sgiliau a'r agweddau entrepreneuraidd i bobl ifanc rhwng 5 a 25 oed i godi dyheadau fel y gallan nhw gyflawni eu potensial pa ddewisiadau bynnag a wnân nhw yn eu bywyd gwaith yn y dyfodol. Un o themâu allweddol *Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid* yw grymuso pobl ifanc â chyfleoedd dysgu entrepreneuraidd. Mae *The Global Entrepreneurship Monitor Special Report: A Global Perspective on Entrepreneurship Education and Training*[2] yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i ysgolion osod sail ar gyfer entrepreneuriaeth. Nod y canllawiau hyn yw dangos sut y gall ethos entrepreneuraidd droi'n realiti.

> "Mae'r cyffro sy'n gysylltiedig â mynd ati i reoli eich dyfodol a'ch busnes eich hun yn deimlad gwych."
>
> Abi Carter, Model Rôl Dynamo

## Pam addysgu entrepreneuriaeth?

> "Rhaid i'r sgiliau sydd eu hangen i droi syniadau yn llwyddiannau masnachol gael eu haddysgu yn yr ysgol."
>
> Peter Jones, Dragons' Den

Mae addysg entrepreneuriaeth yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Mae'n helpu pobl ifanc i ddatblygu eu gallu entrepreneuraidd a pharatoi at eu dyfodol o fewn yr amgylchedd busnes, economaidd ac ariannol cymhleth y byddan nhw'n byw ynddo.

[2] *Global Entrepreneurship Monitor Special Report: A Global Perspective on Entrepreneurship Education and Training* Training gan Alicia Coduras Martínez, Jonathan Levie, Donna J. Kelley, Rögnvaldur J. Sæmundsson, Thomas Schøtt a Global Entrepreneurship Research Association (GERA) (© 2010).

Y deilliannau allweddol yw dysgwyr sydd:

- yn hunanymwybodol ac a all fyfyrio ar eu cryfderau, diddordebau a'u dyheadau penodol eu hunain
- yn meddu ar agwedd gallaf wneud a'r brwdfrydedd i wneud i bethau ddigwydd
- yn meddu ar y sgiliau i gyd-dynnu'n dda â phobl, dylanwadu, negodi a chyfrannu at ddull o weithio fel tîm
- yn greadigol, arloesol a hyblyg
- yn ddyfeisgar wrth reoli a chymryd risg
- yn defnyddio dulliau gweithredu llawn dychymyg a hyddysg o ddatrys problemau
- yn gallu cymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn
- yn meddu ar agwedd adeiladol at fusnes
- yn gallu llwyddo a dod yn aelodau gwerthfawr o'u cymuned.

Yn hollbwysig, dylai dysgwyr fod yn gallu esbonio sut y maen nhw wedi datblygu ac arddangos eu gallu entrepreneuraidd a pham mae'r sgiliau hyn yn bwysig.

Mae manteision ehangach sefydlu dull gweithredu sefydledig o ran addysg entrepreneuriaeth yn cynnwys:

- cwricwlwm mwy perthnasol
- gwell cymhelliant a hunanhyder ymhlith dysgwyr
- mwy o gydweithio ar draws y cwricwlwm ac ar draws cyfnodau.

Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd clir i addysgu am entrepreneuriaeth. Dylai *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* gael ei ddefnyddio fel sail i gynllunio addysg entrepreneuraidd ar draws y cwricwlwm. 'Deall y byd gwaith' yw'r elfen sydd â pherthnasedd arbennig i addysg entrepreneuraidd. Mae deilliannau dysgu yn disgrifio'r ystod o wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddylai gael eu defnyddio fel cyd-destunau dysgu i ddatblygu sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd.

Mae addysg entrepreneuriaeth hefyd yn rhan hanfodol o Lwybrau Dysgu 14–19 ac mae'n gwneud dysgu yn berthnasol i'r byd gwaith. Mae elfen y Craidd Dysgu o Lwybrau Dysgu 14–19 yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc:

- ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd
- archwilio'r byd busnes a gwaith
- datblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau hyddysg ynghylch eu nodau gyrfaol yn y dyfodol.

Mae entrepreneuriaeth hefyd yn elfen o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru a phrentisiaethau.

Dylai dysgu entrepreneuraidd fod yn rhan gynlluniedig, integredig o'r cwricwlwm, sydd wedi ei chydlynu'n effeithiol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant i bob dysgwr drwy brofiadau dysgu heriol ac entrepreneuraidd. Ni ddylid ei ystyried yn bwnc ychwanegol nac yn rhywbeth a gyflwynir ar ei ben ei hun. Dirprwyir y gwaith o ddarparu'r cwricwlwm i ddarparwyr dysgu a fydd yn penderfynu ar yr amser a roddir i addysg entrepreneuriaeth a'r strategaethau ar gyfer dysgu a fabwysiedir.

> "Mae angen i ddysgu entrepreneuraidd ganolbwyntio ar ddatblygiad personol a sgiliau cymdeithasol i'r un graddau â datblygiad busnes, er mwyn i gwmnïau bach heddiw baratoi'r ffordd ar gyfer straeon llwyddiant gwych busnesau bach yfory."
>
> Russell Lawson, cyn-Bennaeth Materion Cyhoeddus, Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru

# Cynllunio strategol ar gyfer addysg entrepreneuriaeth

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau i gyrff llywodraethu, pwyllgorau rheoli, arweinwyr ysgolion a cholegau a phartneriaid eraill ar gynllunio ar gyfer dysgu a dilyniant mewn addysg entrepreneuriaeth.

> "Rydw i'n credu mewn cynllunio nodau am y dyfodol, ac rwy'n credu'n gryf y gallwch lwyddo os ydych yn benderfynol ... rhaid i chi fod yn ddewr."
>
> Rachel Flanagan, Entrepreneur Ifanc y Flwyddyn 2011, Gwobrwyon Busnes De Cymru

## Nodweddion dull sefydledig

Mae gan ysgolion a cholegau entrepreneuraidd weledigaeth glir o'r effaith drawsnewidiol a gaiff ethos uchelgeisiol ar dysgu ac addysgu a safonau cyflawniad. Mae datblygu diwylliant entrepreneuraidd ac ymgorffori addysg entrepreneuriaeth yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm yn gofyn am gynllunio strategol a chydweithredu, gan gynnwys:

- dealltwriaeth gyffredin o addysg entrepreneuriaeth, yn seiliedig ar ddiffiniad cytûn
- ymrwymiad proffil uchel gan uwch arweinwyr i addysg entrepreneuriaeth a strategaeth glir ar gyfer creu ethos entrepreneuraidd
- cael uwch aelod o staff i hyrwyddo addysg entrepreneuriaeth a neilltuo digon o amser ac adnoddau iddi
- ymgynghori â dysgwyr er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hystyried ac y diwellir anghenion pob dysgwr, yn arbennig y rheini ag anghenion ychwanegol
- cael rhaglen effeithiol o ddatblygiad proffesiynol i gynyddu ymwybyddiaeth staff o addysg entrepreneuriaeth a datblygu eu harbenigedd i'w darparu mewn ffordd effeithiol
- cael systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen addysg entrepreneuriaeth, gwerthuso effaith gweithgareddau ar ddeilliannau dysgwyr a defnyddio canfyddiadau gwerthuso i wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Mae angen dealltwriaeth gyffredin ar bob aelod o staff o ddeilliannau dysgu entrepreneuraidd, goblygiadau ehangach dysgu ac addysgu, a sut i greu amgylcheddau dysgu ag ethos sy'n canolbwyntio ar waith. Dylid annog pob un o feysydd y cwricwlwm i ddatblygu cyfleoedd i ddysgu ac addysgu entrepreneuriaeth a hyrwyddo galluoedd ac agweddau entrepreneuraidd dysgwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod y ffactorau canlynol yn ganolog wrth ymgorffori addysg entrepreneuriaeth yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm:

- rhaglen gydlynol sy'n cynnwys pob dysgwr
- nodi deilliannau dysgu
- dilyniant mewn sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, gan adeiladu ar eu profiadau blaenorol
- gwersi penodedig i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd dysgwyr sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau dysgu priodol megis gemau, efelychiadau a chystadlaethau busnes
- gweithgareddau dysgu perthnasol, diddorol sy'n cynnwys dysgwyr mewn ffordd weithredol drwy fod yn seiliedig ar gyd-destunau go iawn
- cyfleoedd trawsgwricwlaidd wedi'u cynllunio'n effeithiol a'u rhoi ar waith yn gyson er mwyn atgyfnerthu negeseuon allweddol ar draws amrywiaeth o bynciau
- gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol â sefydliadau allanol a sefydliadau arbenigol wrth gynllunio a chyflawni gweithgareddau dysgu.

## Datblygu polisi

Er mwyn i addysg entrepreneuriaeth ymsefydlu, mae datblygu polisi yn sicrhau bod pawb yn cytuno ar yr hyn a olygir gan addysg entrepreneuriaeth, yn deall pam mae'n bwysig ac yn gwybod beth yw'r manteision.

Dylai'r polisi:

- ddarparu diffiniad clir o addysg entrepreneuriaeth
- amlinellu gweledigaeth y sefydliad o addysg entrepreneuriaeth
- nodi'r nodau a'r deilliannau disgwyliedig i ddysgwyr y rhaglen addysg entrepreneuriaeth

- disgrifio sut y rheolir y rhaglen a phwy fydd yn cymryd y prif gyfrifoldeb am y cynllun cyflawni ar gyfer ymgorffori addysg entrepreneuriaeth
- amlinellu sut y cyflawnir y rhaglen, y dulliau addysgu a'r adnoddau a ddefnyddir a phwy sy'n gyfrifol am ei darparu
- nodi sut y caiff anghenion datblygiad proffesiynol parhaus staff eu nodi a sut y cân nhw eu diwallu
- crynhoi cynnwys y rhaglen addysg entrepreneuriaeth ar gyfer pob grŵp blwyddyn
- disgrifio sut mae'r rhaglen yn diwallu anghenion pob dysgwr
- nodi sut y ceisir safbwyntiau dysgwyr
- disgrifio sut y bydd yr ysgol/coleg yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr
- crynhoi'r rhan a chwaraeir gan asiantaethau allanol a chyflogwyr yn y rhaglen.

Dylai'r polisi hefyd ddisgrifio:

- sut y caiff safonau dysgu ac addysgu entrepreneuriaeth eu monitro
- pwy fydd â'r prif gyfrifoldeb am fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth o ran entrepreneuriaeth
- sut y caiff safbwyntiau dysgwyr eu hystyried
- rôl y corff llywodraethu, bwrdd rheoli neu grŵp cyfatebol.

Ar gyfer fframwaith polisi addysg entrepreneuriaeth enghreifftiol gweler Atodiad A (tudalen 35).

# Datblygu addysg entrepreneuriaeth effeithiol

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am gydlynu addysg entrepreneuriaeth ac ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am ddarparu addysg entrepreneuriaeth.

Mae darparwyr dysgu sy'n hwyluso dull gweithredu lleoliad cyfan o ran addysg entrepreneuriaeth yn effeithiol yn cynllunio ac yn cydlynu cyfleoedd dysgu cynyddol a gwahaniaethol ar draws y cwricwlwm. Ymgorfforir gweithgareddau dysgu entrepreneuraidd perthnasol o safon mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi.

Mae datblygu dull gweithredu o'r fath yn cymryd amser ond mae'n arwain at ddiwylliant entrepreneuraidd, yn hytrach nac ystyried addysg entrepreneuriaeth yn 'fenter' untro neu'n rhywbeth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr yn unig sy'n astudio pynciau neu gwrs penodol. Mae darparwyr dysgu fel arfer yn dechrau drwy gyflwyno elfennau o entrepreneuriaeth mewn nifer gyfyngedig o bynciau ac yn dysgu drwy brofiad. Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn canfod yn gyflym bod o leiaf rhywfaint o'u gweithgareddau dysgu eisoes yn rhai 'entrepreneuraidd' neu fod y gallu ganddyn nhw i fod yn rhai 'entrepreneuraidd'.

> "Gall entrepreneuriaeth gael ei haddysgu, a rhaid iddi gael ei dysgu."
>
> Doug Richards, School for Startups

## Datblygu sgiliau drwy addysg entrepreneuriaeth

Mae rhaglenni wedi'u cynllunio'n dda yn defnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar sgiliau ac yn darparu senarios bywyd go iawn ar gyfer cymhwyso sgiliau llythrennedd, rhifedd, meddwl a TGCh.

Ym maes addysg entrepreneuriaeth, drwy weithgareddau a thrafodaeth grŵp, mae dysgwyr yn rhannu gwybodaeth, yn ymchwilio i faterion ac yn cynnig barn. Drwy drafodaethau, maen nhw'n gwrando ar safbwyntiau eraill ac yn eu gwerthfawrogi, ac maen nhw'n darbwyllo a negodi. Maen nhw hefyd yn ystyried ac yn dehongli iaith a thestun o ystod o gyfryngau gan gynnwys TGCh. Mae dysgwyr yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd wrth iddyn nhw ddatrys problemau mewn cyd-destunau bob dydd. Maen nhw'n casglu ac yn dadansoddi data rhifol o amrywiaeth o ffynonellau,

gan gynnwys TGCh, ac yn ei ddefnyddio i wneud dewisiadau hyddysg am rinweddau ac effeithiau darparu nwyddau a gwasanaethau. Mae addysg entrepreneuriaeth hefyd yn cynnwys dysgwyr mewn ystod eang o weithgareddau sy'n gofyn iddyn nhw fod yn wybodus, medrus, ystyriol a hyblyg. Drwy gyd-destunau ymarferol a go iawn, mae dysgwyr yn cynllunio ac yn pennu nodau wrth gyflawni tasgau cydweithredol ac yn gwerthuso cynnydd. Maen nhw'n cydweithio i leoli a chofnodi gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn dysgu gwahaniaethu rhwng ffaith a barn gan gwestiynu dibynadwyedd tystiolaeth. Yn hollbwysig, drwy arbrofi gyda'u syniadau eu hunain a syniadau eraill, byddan nhw'n dod yn fedrus ac yn hyderus o ran meddwl yn entrepreneuraidd, ac maen nhw'n fodlon mentro gyda syniadau. Mae addysg entrepreneuriaeth hefyd yn darparu cyd-destunau cyfoethog i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau TGCh drwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio i'w gwaith, a'i ddatblygu a'i gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys defnyddio cronfeydd data a thaenlenni. Drwy ymchwilio i wybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau TGCh, gan gynnwys y rhyngrwyd, dechreuan nhw gwestiynu gogwydd y ffynonellau hyn. Byddan nhw'n dod yn ymwybodol o beryglon posibl arferion masnachol sydd wedi'u targedu at bobl ifanc gan efelychu senarios go iawn i ddatblygu craffter o ran defnyddwyr a busnes.

## Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion cynradd

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod gan bob ysgol gynradd raglen briodol sy'n pwysleisio meddwl entrepreneuraidd ac yn helpu plant i ddeall yr amrywiaeth o swyddi a gyflawnir gan bobl yn eu cymuned, bod arian yn cael ei ennill drwy weithio ac y gellir ei ddefnyddio i brynu nwyddau a gwasanaethau. Dylid annog dysgwyr i arbrofi gyda'u syniadau eu hunain a syniadau eraill, i ddechrau mentro a dod yn feddylwyr annibynnol.

Fel arfer, mae ysgolion cynradd sy'n integreiddio addysg entrepreneuriaeth yn effeithiol drwy'r cwricwlwm:

- yn cyflogi pennaeth sydd â diddordeb mawr mewn datblygu addysg entrepreneuriaeth
- yn cynnwys addysg entrepreneuriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol
- yn nodi unigolyn allweddol i gynllunio a chydlynu'r rhaglen.

Yn aml datganolir cyfrifoldeb am agweddau ar addysg entrepreneuriaeth i sawl athro/athrawes sy'n cydgynllunio, yn dysgu drwy wneud ac yn cydweithio'n agos i rannu syniadau a datblygu arfer.

Mae nodweddion allweddol eraill yn cynnwys:

- nodi'r cysylltiadau rhwng addysg entrepreneuriaeth a phynciau a themâu eraill
- cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu defnydd dysgwyr o derminoleg entrepreneuraidd sylfaenol sy'n addas i'w hoedran
- darparu cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr ddefnyddio eu menter eu hunain a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth megis datrys problemau a gweithio mewn tîm
- sefydlu cysylltiadau effeithiol â busnesau lleol.

Mae enghreifftiau o gynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau entrepreneuraidd yn cynnwys:

- gwahodd ymwelwyr i roi cipolwg i ddysgwyr ar yr ystod o alwedigaethau gwahanol yn yr ardal leol
- cyflwyno gweithgareddau mentergarwch ar raddfa fach a chyflwyniadau ar ffurf 'Dragons Den'
- sefydlu siopau ffrwythau mewn ysgolion i helpu dysgwyr i gymhwyso eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destun bywyd go iawn a chael profiad o werthu a rhedeg siop yr ysgol
- cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau codi arian i elusen
- mynd â dysgwyr ar ymweliadau â busnesau lleol i weld beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni
- ymweliadau gan ddysgwyr o'r ysgol uwchradd leol i redeg gweithgareddau entrepreneuriaeth.

Dylai ysgolion cynradd gael paramedrau clir ar yr hyn y dylid ei addysgu i ddysgwyr cyn iddyn nhw symud ymlaen i'r ysgol uwchradd a dylen nhw gysylltu â chydweithwyr yn yr ysgol uwchradd i sicrhau bod dull gweithredu cyson a dilyniant priodol rhwng ysgolion.

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Rogiet, Sir Fynwy – Bod yn entrepreneuraidd

Fel rhan o'r cwricwlwm gwyddoniaeth, astudiodd dysgwyr Blwyddyn 3 gylch bywyd broga. Yn hytrach nag ysgrifennu am eu dysgu, penderfynodd y dysgwyr gynhyrchu ffilm wedi'i hanimeiddio. Caniataodd hyn iddyn nhw ymchwilio i agweddau ar wneud ffilm a'r defnydd masnachol o ffilm i egluro ffeithiau gwyddonol i gynulleidfa.

Dysgodd y dysgwyr yn gyflym am sgiliau gwneud ffilm ac animeiddio, a gwnaethan nhw fwynhau'r profiad. Roedden nhw'n fodlon iawn ar y canlyniad felly penderfynwyd gwahodd cynulleidfa o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr i ddangosiad cyntaf eu hanimeiddiad. Gwnaethon nhw benderfynu y bydden nhw'n codi tâl am fynediad, yn cynhyrchu tocynnau ac yn ystyried ffactorau eraill a fyddai'n gwneud y ffilm yn llwyddiannus, yn gost effeithiol ac o bosibl yn cynhyrchu elw, e.e. drwy werthu popgorn.

**Benthyca o'r banc**
Gwnaeth grŵp o ddysgwyr gyflwyniad i'r pennaeth am 'fenthyciad' a fyddai'n ddigon i brynu eu deunyddiau crai a'u helpu i ddechrau'r gwaith. Gwnaethon nhw lofnodi cytundeb i ddychwelyd y benthyciad, gan ganolbwyntio ar yr angen i wneud elw.

**Popgorn er mwyn elw**
Roedd hyn yn cynnwys ymchwilio i'r mathau amrywiol sydd ar gael, manteision ac anfanteision ailwerthu popgorn parod yn hytrach na gwneud a gwerthu eu popgorn eu hunain. Yn fuan gwelsan nhw fod prynu popgorn heb ei baratoi gryn dipyn yn rhatach na gwerthu popgorn parod oddi wrth gyfanwerthwr. Arweiniodd hyn at y dasg o sefydlu llinell brofi a chynhyrchu, ac awgrymwyd llawer o flasau rhyfedd. Gwnaethon nhw fwynhau hyn yn fawr iawn, fodd bynnag roedd amheuaeth a fyddai pob blas yn gwerthu. Yn y pen draw canolbwyntiodd y dysgwyr ar y blasau mwyaf traddodiadol – gwers werthfawr o ran profi cynnyrch ar y farchnad.

**Trefnu'r digwyddiad**
Cynhyrchodd y dysgwyr y tocynnau, gwnaethon nhw gymryd cyfrifoldeb am farchnata dangosiad cyntaf y ffilm a gwerthu'r tocynnau a gwnaethon nhw drefnu'r cyfarpar a'r ystafell.

Cyflwynwyd sioe hynod lwyddiannus gan y dysgwyr a chynhyrchwyd digon o elw i ad-dalu'r benthyciad gyda rhywfaint o arian dros ben! Daeth pwnc gwyddonol traddodiadol i'r amlwg yn naturiol fel gweithgaredd dysgu entrepreneuraidd gwirioneddol. Seiliodd yr ysgol y prosiect hwn ar y model ACPT.

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Carwe, Sir Gaerfyrddin – Dyna STORM

Mewn prosiect hanes lleol, ymchwiliodd y dysgwyr i'r ymdrechion a wnaed i dorri'r record cyflymder ar dir ar draeth Pentywyn ar ddechrau'r 1920au. Cawson nhw eu hysbrydoli hefyd gan y newyddion am ddatblygiad 'Bloodhound', car uwchsonig newydd wedi'i gynllunio i dorri'r record cyflymder ar dir. Gwnaeth hyn ennyn diddordeb y dysgwyr a chodi eu hymwybyddiaeth o ba mor entrepreneuraidd y mae angen i chi fod mewn byd cystadleuol. Seiliodd yr ysgol y prosiect hwn ar y model ACPT:

**Agwedd – Gallaf wneud**
Ymchwiliodd y dysgwyr i'r heriau amrywiol sy'n wynebu'r rhai sy'n ymdrechu i dorri'r record cyflymder ar dir, a pha mor fentrus y mae'n rhaid iddyn nhw fod er mwyn llwyddo neu hyd yn oed roi cynnig arni!

**Creadigrwydd**
Gweithiodd y dysgwyr yn greadigol i ddylunio a gwneud car model yr oedd yn rhaid ei farchnata a'i rasio. Gwnaeth y dysgwyr:

- oruchwylio'r broses o ddylunio a chynhyrchu'r car
- cynnal treialon i weld beth oedd gallu rasio'r car ar gae rasio Ffos-Las
- ymchwilio i enw brand ar gyfer y car – 'Storm'
- datblygu strategaethau amrywiol i farchnata'r car gan gynnwys:
  - cynhyrchu 'rap storm'
  - logo car
  - nwyddau marchnata, e.e. crysau T, cylchau allweddi, hetiau.

**Perthynas**
Datblygwyd y crysau T, y cylchau allweddi a'r logos fel rhan o brosiect pontio gyda dysgwyr o'r ysgol uwchradd leol.

**Trefniadaeth**
Cynlluniodd y dysgwyr y prosiect, lluniwyd cynigion ac ysgrifennwyd llythyr i fusnesau lleol, gan godi dros £500 mewn arian nawdd.

Roedd yr enghraifft hon o addysg entrepreneuriaeth yn cynnwys pob dosbarth yn yr ysgol, a gwnaed cysylltiadau ag ystod o feysydd cwricwlaidd gan gynnwys gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a hanes, gan ddarparu cyd-destun bywyd go iawn ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd. Drwy gyfrwng y prosiect hwn mabwysiadodd y dysgwyr agwedd entrepreneuraidd, ac fe'u galluogwyd i weithio fel tîm, datrys problemau a chael cipolwg ar fyd go iawn peirianneg a chwaraeon moduron. Cydnabuwyd eu hymdrechion wrth iddyn nhw ennill rownd derfynol ranbarthol De Cymru yng nghystadleuaeth genedlaethol Her Formula 1.

## Astudiaeth achos: Datblygu sgiliau entrepreneuraidd ar draws cymuned o ysgolion

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydnabod pa mor bwysig a gwerthfawr ydyw i ddysgwyr feithrin sgiliau entrepreneuraidd ac mae ganddo raglen atyniadol i hyrwyddo entrepreneuriaeth i bob myfyriwr AB yn y coleg. Mae ei raglen hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r coleg ei hun drwy ymgysylltu ag ysgolion a busnesau lleol. Mae'r cysylltiadau yn fuddiol i fyfyrwyr y coleg ac i'r partneriaid lleol niferus, megis ysgolion cynradd ac uwchradd, y siambr fasnach leol a busnesau.

Mae'r coleg yn gwerthfawrogi nad darlithwyr ac athrawon yn unig a all ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd, ond hefyd fyfyrwyr eraill sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth eisoes o weithio mewn partneriaeth yn y gymuned drwy eu cysylltiad â Siambr Fasnach Pobl Ifanc, mentergarwch tîm, partneriaid busnes lleol, digwyddiadau entrepreneuraidd cenedlaethol a rhyngwladol.

Mewn grwpiau, mae myfyrwyr coleg o amrywiaeth o gyfadrannau yn cydweithio'n agos â dysgwyr ysgol gynradd dros gyfnod o chwe wythnos i gynllunio, trefnu a gweithredu gweithgaredd entrepreneuraidd. Maen nhw'n cefnogi'r ysgol i sefydlu timau cydweithredol, ac yn defnyddio deunyddiau Dynamo i helpu dysgwyr iau i ddatblygu'r sgiliau i weithio'n gydweithredol. Y manteision i'r ysgol ac i ddysgwyr yw'r canlynol:

- cân nhw gymorth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i gymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraidd
- gallan nhw ddatblygu sgiliau ACPT ar draws y cwricwlwm ysgol.

Mae'r dull mentora cymheiriaid hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau yn hytrach na bod y gweithgaredd yn un 'pleserus' yn unig heb unrhyw ganlyniadau gwirioneddol. Mae myfyrwyr y coleg yn elwa ar gyfle i drosglwyddo'r sgiliau entrepreneuraidd a ddatblygwyd ganddyn nhw yn y coleg i eraill yn y gymuned. Mae hefyd yn gyfle iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau cyfathrebu sy'n creu tystiolaeth ar gyfer sgiliau allweddol ac elfen cyfranogiad cymunedol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Dyma oedd barn y dysgwyr o'r ysgolion cynradd:**
"Roedd yn rhaid i fi feddwl am rywbeth y byddai pawb am ei brynu, meddwl am ddyluniad, lliw a phris a chreu darlun ohono. Yna cafodd yr holl ddyluniadau eu beirniadu ac fy nyluniad i oedd yr un gorau, ac roedd hynny'n wych."

"Dwi'n credu yr hoffen i fod yn bennaeth ar fy nghwmni fy hun yn y dyfodol oherwydd dwi'n dda iawn am feddwl am ddyluniadau a'u gwerthu."

"Dysgais lawer o bethau newydd fel gweithio gyda fy ffrindiau i feddwl am syniadau. Cefais lawer o hwyl yn gwneud y masgotiaid gwahanol gan fod yn rhaid i ni fod yn greadigol a meddwl am ddyluniadau difyr ond cydweithio hefyd i benderfynu ar y syniad gorau."

**Dyma rai o sylwadau un o fyfyrwyr y coleg:**
"Roedden ni'n nerfus iawn ynglŷn â mynd i'r ysgol gynradd i addysgu sgiliau entrepreneuraidd i'r plant, ond fe gawson ni lawer o hwyl yn gweithio gyda nhw, a gwnaethon ni greu cysylltiad gwych â'r grŵp bach roedden ni'n gweithio gydag ef a ffurfio cydberthynas wych â llawer ohonyn nhw. Y sgiliau roedden ni'n eu helpu nhw i'w meithrin oedd cyfathrebu, gwaith tîm, sgiliau creadigol, datrys problemau, sut i feddwl am syniadau gwych a sut i ddarbwyllo pobl i bleidleisio o blaid eu syniad nhw."

**Crëwyd argraff ar y darlithwyr AB hefyd:**
"Dewiswyd fy myfyrwyr gwyddorau chwaraeon i fynd i'r ysgol gynradd leol i gyflwyno prosiect chwe wythnos, ac ar y dechrau roedden nhw'n amharod i wneud hyn gan nad oedd ganddyn nhw fawr ddim syniad sut i addysgu mewn ystafell ddosbarth a hyd yn oed lai o frwdfrydedd. Fodd bynnag, dros y chwe wythnos gwelais newid enfawr yn eu hagwedd a'u hyder."

"Defnyddiwyd sgiliau fel creadigrwydd, datrys problemau, negodi a darbwyllo, cymhelliant, penderfyniad ac ymrwymiad dro ar ôl tro gan ein myfyrwyr ac mae hon yn rhaglen werthfawr iawn."

## Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion uwchradd (a lleoliadau addysgol eraill sy'n darparu ar gyfer dysgwyr oedran ysgol uwchradd, e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion)

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod gan bob ysgol uwchradd raglen entrepreneuriaeth briodol sy'n helpu dysgwyr i:

- ymchwilio i briodoleddau entrepreneuriaid a rôl mentergarwch wrth greu cyfoeth
- datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd.

Mae ysgolion uwchradd sydd wedi ymgorffori addysg entrepreneuriaeth yn effeithiol drwy'r cwricwlwm yn defnyddio cyfuniad o:

- wersi penodedig, yn aml fel rhan o fodiwl o fewn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- dysgu sydd wedi ei integreiddio ar draws ystod o bynciau
- diwrnodau lle na ddilynir yr amserlen neu 'amserlen ataliedig'.

Pan fydd ysgolion yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddiwrnodau 'amserlen ataliedig', mae profiadau dysgu wedi eu gwahanu oddi wrth weddill y cwricwlwm a gall dysgwyr ddatblygu ond dealltwriaeth rannol o syniadau neu gysyniadau allweddol. Fodd bynnag, mantais digwyddiadau 'amserlen ataliedig' yw eu bod yn galluogi dysgwyr i:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau estynedig sy'n anodd eu rheoli mewn gwersi arferol
- gweithio mewn timau i ddatblygu atebion i broblemau sy'n gysylltiedig â busnes a chyflwyno eu syniadau
- cael budd o gynnwys partneriaid allanol, megis cyflogwyr lleol.

Beth bynnag fo'r model darparu a fabwysiedir, dylai gweithgareddau dysgu entrepreneuriaeth roi cyfleoedd i ddysgwyr:

- gynllunio gweithgareddau a rheoli eu hamser yn effeithiol er mwyn cyflawni gwaith ar amser
- datblygu sgiliau gweithio mewn tîm, negodi a datrys problemau yn ogystal â sgiliau cyfathrebu, cyflwyniadol a chymdeithasol
- myfyrio ar eu dysgu a'u gweithrediadau

- datblygu agweddau cadarnhaol a gwerthoedd sy’n dylanwadu ar y ffordd y maen nhw’n ymddwyn
- datblygu’r sgiliau sydd eu hangen i wneud a gweithredu penderfyniadau hyddysg am eu gyrfa yn y dyfodol
- gwybod sut i gael cyngor hyddysg a chanllawiau diduedd ar syniadau gyrfaol.

Mae enghreifftiau o gynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau entrepreneuraidd yn cynnwys:

- cyflwyniadau ar ffurf ‘Dragons Den’
- efelychiadau busnes
- cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau codi arian i elusen
- gweithgareddau, prosiectau, clybiau a chystadlaethau sy’n gysylltiedig â menter
- cyflwyniadau Model Rôl Dynamo
- ymweliadau â busnesau lleol
- trefnu a rheoli mentrau elusennol neu gymunedol (fel rhan o Fagloriaeth Cymru neu Wobr Dug Caeredin)
- cynllunio cyllid teithiau ac ymweliadau
- cymryd rhan yn y cynllun ysgolion Masnach Deg
- mae gan brofiadau sy’n canolbwyntio ar waith y potensial hefyd i gynnig cyfleoedd pellach i ddysgwyr brofi ymddygiadau ac agweddau entrepreneuraidd go iawn
- rhaglenni mentora cymheiriaid
- clybiau y tu allan i oriau ysgol.

## Astudiaeth achos: C'mon Cymuned!

Mae Llwyddo'n Lleol yn helpu pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed sy'n byw yng Ngogledd-orllewin Cymru i ddringo'r ysgol yrfa a llwyddo yn eu cymunedau. Gwireddwyd y prosiect drwy gyllid o Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr UE drwy Lywodraeth Cymru a'i nod yw'r canlynol.

- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sectorau twf yn eu hardaloedd, a'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hunangyflogaeth y gall y sectorau hynny eu cynnig.
- Meithrin meddylfryd gallaf wneud ymhlith pobl ifanc ac annog ein cenhedlaeth ifanc i weld hunangyflogaeth a sefydlu mentrau fel dewis gyrfaol hyfyw a chyffrous.
- Datblygu sgiliau mentro ymhlith pobl ifanc.

Gwahoddwyd dysgwyr Blwyddyn 9 o ysgolion uwchradd Gwynedd i gyfres o Ffeiriau Mentrau Cymdeithasol. Yn ystod y ffeiriau, cawson nhw y cyfle i ddysgu mwy am fenter gymdeithasol, a'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hunangyflogaeth o fewn y sector. Roedd hefyd yn gyfle i'r bobl ifanc gwrdd â phobl o fentrau cymdeithasol lleol a'u holi er mwyn dysgu rhagor am eu gwaith.

Ar ddiwedd y ffeiriau, lansiwyd cystadleuaeth 'C'mon Cymuned' er mwyn i grwpiau o bobl ifanc feddwl am eu syniadau eu hunain ar gyfer menter gymdeithasol, a'u cyflwyno fel ffilm fer. Cyflwynodd wyth ysgol eu syniadau, a chafodd pump ohonyn nhw fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol i wireddu eu syniad.

Un o'r ysgolion llwyddiannus oedd Ysgol y Berwyn, Gwynedd, a gyflwynodd ei syniad o greu gardd ar dir yr ysgol i dyfu a gwerthu llysiau a ffrwythau i'r gymuned leol. Mae menter 'Berfa'r Berwyn' wedi cael ei sefydlu, a'r ardd wedi cael ei datblygu.

Dywedodd un o'r partneriaid sy'n fyfyriwr o fenter Berfa'r Berwyn: "Fe gawson ni lawer o hwyl yn ffilmio ein syniad a chreu ein cynllun busnes. Rydyn ni wedi gweithio'n galed ar yr ardd, ac eisoes wedi llwyddo i dyfu cnydau fel tatws ac wedi eu gwerthu."

## Astudiaeth achos: Ysgol Uwchradd Bodedern, Gwynedd – datblygu sgiliau entrepreneuraidd yng Nghyfnod Allweddol 3

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu sgiliau entrepreneuraidd ym Mlwyddyn 7 gan mai'r nod yw datblygu gallu entrepreneuraidd yn ifanc fel y gall dysgwyr ddatblygu erbyn iddyn nhw gyrraedd Blwyddyn 9 pan fyddan nhw'n canolbwyntio ar opsiynau pwnc a dewisiadau o ran gyrfa yn y dyfodol.

Mae gwersi'n canolbwyntio ar y strategaethau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu a gweithredu syniadau mewn ffordd systematig ond creadigol. Ar ôl briff cychwynnol lle y cyflwynir aelodau staff i'r model ACPT a sesiynau hyfforddi a gynhelir yn ystod cyfarfodydd staff wythnosol, cyflwynir gwersi gan diwtoriaid dosbarth a gaiff eu hannog i ddefnyddio dull gweithredu wedi ei arwain gan ymholiadau.

Mae dysgwyr yn cwblhau gweithgareddau amrywiol yn ystod gwersi ABCh i baratoi at y dasg olaf yn ystod Wythnos Gweithgaredd Sgiliau ar ddiwedd tymor yr haf. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

**Beth yw'r dasg?**
Cyflwyniad grŵp blwyddyn gyfan i osod y cefndir.

**Casglu**
Nodi rolau amrywiol o fewn y grŵp a dewis enw a logo'r cwmni.

**Creadigrwydd; trefnu a phenderfynu**
Creu syniadau ac ymchwilio i dueddiadau cyfredol gan gynnwys ymchwil i'r farchnad. Nodi eitemau sydd eu hangen ar gyfer eu cwmnïau, datblygu cynllun busnes a chostau.

**Gweithredu; Beth am roi cynnig arni**
Cadarnhau eu syniadau a chynhyrchu prototeip yn ystod yr Wythnos Gweithgaredd Sgiliau.

**Beth am ddweud wrth rywun**
Dadlau'n gadarn o blaid eu syniad a'i gyflwyno i eraill, gan gynnwys panel o arbenigwyr, fel swyddog datblygu o Menter a Busnes a chyflogwyr lleol. Mae aelodau'r panel yn rhoi cyngor a chanllawiau i bob tîm yn ogystal â beirniadu eu syniadau a'u prosesau.

Mae'r prosiect yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o sgiliau entrepreneuraidd. Mae dysgwyr yn cael budd o'u sgiliau ac yn eu gwella, gan ddod yn fwy hyderus a deall beth yw ystyr bod yn entrepreneuraidd. Un canlyniad cadarnhaol arall yw bod dysgwyr a busnesau lleol yn cydweithredu â'i gilydd, ac yn meithrin cyd-ddealltwriaeth o sgiliau ac anghenion ei gilydd. Mae llawer o ddysgwyr bellach yn gwybod mwy am eu busnesau lleol nag o'r blaen.

## Addysg entrepreneuriaeth mewn ysgolion arbennig

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth gynllunio'r ddarpariaeth o ran entrepreneuriaeth. Dylai fod yn rhan gynlluniedig ac integredig o'r cwricwlwm, wedi ei chydlynu'n effeithiol i sicrhau parhad a dilyniant priodol mewn dysgu ar draws y cyfnodau allweddol.

Dylai ysgolion arbennig benderfynu ar union gynnwys y rhaglen a'r strategaethau ar gyfer dysgu a fabwysiadwyd i ddiwallu anghenion gwahanol y dysgwyr.

Mae enghreifftiau o gynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau entrepreneuraidd yn cynnwys:

- helpu i redeg siop yr ysgol
- efelychiadau busnes – darparu profiad sy'n canolbwyntio ar waith i fyfyrwyr ôl-16 mewn busnesau o fewn ysgolion, fel caffi, lle golchi ceir a chanolfan arddio, lle maen nhw'n cydweithio i greu cynhyrchion a gwasanaethau a gwneud elw i'w cwmni
- ymwneud â chodi arian i elusennau lle caiff y dysgwyr eu hannog i benderfynu ar themâu ar gyfer digwyddiadau elusennol ac awgrymu syniadau ar sut i godi gymaint o arian â phosibl
- gwirfoddoli – mae myfyrwyr ôl-16 yn cyflawni lleoliadau gwaith yn y Banc Bwyd lleol a siopau elusen fel rhan o elfen wirfoddoli gwobr Dug Caeredin
- gweithgareddau, prosiectau a chystadlaethau sy'n gysylltiedig â menter, e.e. Diwrnodau Menter i bob myfyriwr Cyfnod Allweddol 4. Cyflawnir gwaith yn ystod y gwersi a gynhelir cyn y digwyddiad i baratoi myfyrwyr ar gyfer y diwrnod. Gwahoddir pobl o fusnesau lleol i weithio gyda'r myfyrwyr
- ymweliadau â busnesau lleol er mwyn cael cipolwg ar y byd gwaith a'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael
- gwahodd cyflogeion o fusnesau gwahanol i siarad â myfyrwyr am eu swyddi a'r byd gwaith.

## Astudiaeth achos: Sunshine Café, Ysgol Uwchradd Woodlands, Caerdydd – ysgol uwchradd i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol

Bob pnawn dydd Mercher mae myfyrwyr ôl-16 yn rhedeg caffi sydd ar agor i aelodau'r cyhoedd. Yn y bore mae'r myfyrwyr yn cyfrif y stoc, yn prynu stoc os oes angen, yn paratoi ac yn gwneud bwyd i'w werthu, yn cytuno ar brisiau ac yn trafod y sgiliau gwaith fel iechyd a diogelwch, gwasanaeth cwsmeriaid a gwaith tîm y byddan nhw'n canolbwyntio arnyn nhw yr wythnos honno.

Yn y pnawn mae'r myfyrwyr yn rhedeg y caffi, yn cymryd archebion, yn gwneud diodydd, yn trin arian ac yn clirio a thacluso.

## Astudiaeth achos: Ysgol Uwchradd Woodlands, Caerdydd – ysgol uwchradd i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol

Mae dysgwyr blwyddyn 10 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ffurf Dragon's Den lle maen nhw'n gweithio mewn timau bach dros gyfnod estynedig o chwe wythnos i ddyfeisio, dylunio a gwneud cynnyrch newydd. Maen nhw'n penderfynu ar enw i'w tîm a'u cynnyrch, yn gwneud eu dyluniadau, yn defnyddio deunyddiau sgrap i wneud eu cynnyrch ac yn penderfynu ar bris a marchnad, ac ati. Yna mae'r myfyrwyr yn cyflwyno eu syniadau i'r 'Dreigiau' – sef myfyrwyr eraill, athrawon a chyflogwyr lleol fel arfer.

Mae deunyddiau asesu dewisol Llywodraeth Cymru, 'Rydw i'n ddyfeisiwr' yn ganllaw defnyddiol er mwyn strwythuro a mapio digwyddiad fel hwn. Mae gan y gweithgaredd cyfoethog 'Beth fyddem ni'n gallu ei ddyfeisio?' syniadau i ennyn diddordeb dysgwyr a gwneud iddyn nhw feddwl am y dasg. Er iddyn nhw gael eu llunio'n wreiddiol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 5, gellir addasu'r deunyddiau hyn yn hawdd i'w defnyddio mewn ysgolion arbennig.

## Addysg entrepreneuriaeth mewn colegau addysg bellach

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod gan bob coleg addysg bellach bolisi a rhaglen entrepreneuriaeth sy'n helpu dysgwyr i:

- ymchwilio i briodoleddau entrepreneuriaid a rôl mentergarwch wrth greu cyfoeth
- datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd
- ymchwilio i ffyrdd lle y gallan nhw sicrhau canlyniadau masnachol llwyddiannus.

Dylai colegau greu amgylchedd lle mae pob myfyriwr ar bob lefel yn dysgu sut i fod yn fwy entrepreneuraidd, a chael strategaeth ar gyfer ymgorffori addysg entrepreneuriaeth ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraidd perthnasol yn sicrhau bod pob myfyriwr yn deall yn well y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer cyflogaeth yn ogystal â deall beth mae'n ei olygu i redeg busnes.

Mae dulliau arfer da yn sicrhau y dylai pob dysgwr:

- ddatblygu sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd fel rhan o'u cwrs craidd, gan ymgorffori elfen gref o ddysgu drwy brofiadau lle bo'n ymarferol
- cael y cyfle i ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'w cwricwlwm craidd neu fel estyniad i'w dysgu. Mae enghreifftiau'n cynnwys cystadlaethau, interniaethau, gweithdai a chanolfannau hyfforddi entrepreneuraidd, ymchwil weithredu a menter yn y gymuned, lle mae myfyrwyr yn credu bod eu gweithrediadau'n rhai go iawn ac yn cael effaith yn lleol
- cael budd o gynnwys partneriaid allanol, megis cyflogwyr ac entrepreneuriaid lleol.

Mae angen i bob aelod o staff, ym mhob adran, fod yn hyderus ac wedi'i gefnogi'n dda i ddarparu addysg entrepreneuriaeth yn llwyddiannus. Mae briffio cychwynnol a hyfforddi staff yn barhaus, yn ogystal â deunyddiau cymorth wedi'u cynllunio a'u datblygu'n ofalus, yn elfen bwysig o ddull gweithredu llwyddiannus.

Pan fydd ysgolion yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddiwrnodau amserlen ataliedig, mae profiadau dysgu wedi eu gwahanu oddi wrth weddill y cwricwlwm a gall dysgwyr ddatblygu ond dealltwriaeth rannol o syniadau neu gysyniadau allweddol. Mae perygl hefyd yr ystyrir entrepreneuriaeth yn rhywbeth atodol yn hytrach nag yn faes craidd ar gyfer dysgu.

Beth bynnag fo’r model darparu a fabwysiedir, dylai gweithgareddau dysgu entrepreneuriaeth roi cyfleoedd i ddysgwyr:

- gynllunio gweithgareddau a rheoli eu hamser yn effeithiol er mwyn cyflawni gwaith ar amser
- datblygu sgiliau gweithio mewn tîm, negodi a datrys problemau yn ogystal â sgiliau cyfathrebu, cyflwyniadol a chymdeithasol; a myfyrio ar eu dysgu a’u gweithrediadau
- bod yn fwy creadigol ac arloesol yn eu hymagwedd at entrepreneuriaeth
- datblygu agweddau cadarnhaol a gwerthoedd sy’n dylanwadu ar y ffordd y maen nhw’n ymddwyn
- arbrofi gyda’u syniadau eu hunain a syniadau eraill, i ddod yn fwy medrus a hyderus, yn fodlon cymryd risgiau ac yn gallu gwneud hynny
- datblygu’r sgiliau sydd eu hangen i wneud a gweithredu penderfyniadau hyddysg am eu gyrfa yn y dyfodol
- gwybod sut i gael cyngor hyddysg a chanllawiau diduedd ar yrfaoedd gan gynnwys dechrau busnes.

Dylai’r model ACPT ategu’r strwythur ar gyfer cynllunio a chyflawni’r sgiliau hyn. Gallai dull gweithredu datblygedig gynnwys:

- strategaethau entrepreneuraidd ar lefel adran i roi fframwaith ar gyfer datblygu a chyflawni i sicrhau bod pob dysgwr yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu sgiliau fel y nodir yn y model ACPT
- hyrwyddwyr entrepreneuriaeth ym mhob adran i roi arbenigedd ac arweiniad
- ymgysylltu â chyflogwyr fel Modelau Rôl Dynamo a thiwtoriaid galwedigaethol ag arbenigedd diwydiannol i roi gwersi yn eu cyd-destun
- cynnwys myfyrwyr wrth gyflawni dan arweiniad cymheiriaid fel cenhadon neu interniaid menter myfyrwyr
- mae cystadlaethau a digwyddiadau fel cyflwyniadau ar ffurf Dragons Den, Her Entrepreneuriaeth y Byd Cymru ac Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd, yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr roi’r sgiliau y maen nhw wedi’u meithrin ar waith mewn lleoliad cystadleuol
- clybiau menter i fyfyrwyr, e.e. The VIP Club, Shut Up & Start Up, lle mae myfyrwyr yn cael cyngor ac yn trafod eu syniadau mewn amgylchedd anffurfiol ag unigolion eraill o’r un anian

- gweithdai datblygu sgiliau a chymorthfeydd dechrau busnes gan gynnwys pynciau fel creadigrwydd, sgiliau cyflwyno, rheoli arian a datblygu priodoleddau allweddol fel hunangymhelliant, annibyniaeth, y gallu i ddadansoddi a datrys problemau.

## Astudiaeth achos: Ymgorffori entrepreneuriaeth mewn dysgu ac addysgu mewn addysg bellach

Mae Coleg Ystrad Mynach wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynnwys staff a dysgwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau entrepreneuriaeth gan sicrhau bod addysg entrepreneuriaeth wedi'i sefydlu'n gadarn yn y coleg.

Yn strategol penderfynwyd y byddai angen i bob cyfadran gymryd cyfrifoldeb am ymgorffori entrepreneuriaeth ac nad yr Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth fyddai'n llwyr gyfrifol am hyn. Yn benodol, gwnaeth arweinwyr cyfadrannau ystyried sut i ymgysylltu â dysgwyr, eu grymuso a'u paratoi. Defnyddiwyd Cynlluniau Cwricwlwm Creadigol (CCP) fel y cyfrwng ar gyfer ymgorffori entrepreneuriaeth a chreadigrwydd yn y cwricwlwm. Mae'r CCP yn cynnwys tair elfen:

- sut y cynllunnir ac y darperir addysg entrepreneuriaeth gan bob ysgol/cyfadran
- sut y defnyddir creadigrwydd i sicrhau bod pob ysgol/cyfadran yn cyflawni'r cwricwlwm
- Pa gymorth sy'n ofynnol gan yr Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth i ddatblygu entrepreneuriaeth ymhellach a chychwyn a datblygu gwaith ar greadigrwydd.

Gweithiodd yr Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth gyda 10 Pennaeth Cyfadran i ddatblygu CCP ar gyfer pob maes dysgu ac i nodi sut y gallai'r Tîm Entrepreneuriaeth gefnogi eu gwaith. Nododd y grŵp bwysigrwydd amgylchedd ffisegol ysgogol; man creadigol yn darparu ymdeimlad o syndod, her a hwyl fel ffactorau hanfodol wrth feddwl yn arloesol ac yn greadigol, datrys problemau ac arfer myfyriol. Un datblygiad arloesol allweddol oedd sefydlu labordy creadigol, yn cynnig amgylchedd bywiog i ysgogi creadigrwydd, cynhyrchu syniadau, datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chynnal cymorthfeydd dechrau busnes. Hyd yma cynhaliwyd mwy na 150 o sesiynau yn y labordy creadigol gan roi cyfle i diwtoriaid, o ystod eang o feysydd cwricwlaidd, ystyried dulliau mwy creadigol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o ddatblygu meddylfryd entrepreneuraidd. Mae'r lliwiau ysgogol yn annog dysgwyr i feddwl yn fwy ochrol a datblygu eu sgiliau meddwl i ystyried mwy na'r ateb amlwg yn unig. Mae dysgwyr yn ehangu eu gorwelion ac yn dysgu edrych am gyfleoedd entrepreneuraidd. Mae adborth cadarnhaol gan ddarlithwyr wedi sicrhau bod y cymorth strategol gan reolwyr y Coleg yn parhau.

## Astudiaeth achos: Cefnogi a hyrwyddo entrepreneuriaeth o fewn y diwydiannau creadigol

Mae Thinc yn adnodd dysgu ac addysgu dynamig a ddatblygwyd yng Ngholeg Iâl, Wrecsam i ategu a hyrwyddo entrepreneuriaeth o fewn y diwydiannau creadigol. Mae'n llwyddo i wneud hyn drwy:

- ymateb i anghenion cyflogwyr drwy wella lefelau sgiliau unigol i helpu i adfywio'r economi
- datblygu partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol effeithiol.

Mae prosiect Thinc wedi ymgorffori gweithgaredd entrepreneuraidd go iawn mewn amrywiaeth o gyrsiau, gan gysylltu'r diwydiannau creadigol a gofynion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn drwy brofiadau yn ategu'n llawn y dyheadau am hunangyflogaeth neu am ddechrau busnes ac mae'n helpu i nodi darpar entrepreneuriaid. Mae wedi galluogi myfyrwyr diwydiannau creadigol i symud o ddylunio ansawdd (dull gweithredu artisan) i weithgaredd mwy entrepreneuraidd (dylunio ansawdd, gweithgynhyrchu a gwerthu). Mae'r model ACPT yn sail i'r dull gweithredu.

**A**gwedd – mae dysgwyr yn mabwysiadu agwedd gallaf wneud sy'n helpu i lywio arloesedd.

**C**readigrwydd – mae dysgwyr yn arddangos creadigrwydd gan ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddod â chynnyrch i'r farchnad ar yr un pryd.

**P**erthynas – mae dysgwyr yn cyd-dynnu'n dda â phobl, yn gallu negodi, gwrando ar bobl a'u darbwyllo.

**T**refniadaeth – mae dysgwyr yn cwblhau tasgau sy'n gysylltiedig â rheoli risg, ymchwilio a chynllunio; yn mynd i'r afael â chostau, llif arian parod, a rheoli amgylcheddau gwaith.

Er enghraifft, gan adeiladu ar waith blaenorol dosbarthiadau astudiaethau busnes, sefydlwyd prosiect Thinc i ymestyn y cyfleoedd i fyfyrwyr wella eu sgiliau entrepreneuraidd ac i weld eu dyluniadau menig yn datblygu o'r bwrdd arlunio, i'r cam gweithgynhyrchu a hyd at y cam hyrwyddo yn America a Japan.

Beirniadwyd dyluniadau'r myfyrwyr a rhoddodd un o brif weithgynhyrchwyr menig a Chanolfan Japan adborth iddyn nhw. Gweithiodd myfyrwyr a staff yn yr adran celf a dylunio yn uniongyrchol â Model Rôl Dynamo, sydd hefyd yn gyfarwyddwr rheoli cwmni gweithgynhyrchu menig. Roedd hyn yn golygu mynd i gyfarfodydd briffio, cyflwyno syniadau a chreu taflenni dylunio, samplau a phrototeipiau. Cafodd myfyrwyr o bob rhan o'r adran celf a dylunio eu cynnwys ym mhob agwedd ar y prosiect gan gynnwys cynhyrchu ffotograffau ar gyfer gwefan y cwmni, catalogau a gwaith hysbysebu, cynhyrchu poster/dyluniadau hysbysebu a dyluniadau pecynnu ar gyfer y menig. Cynhyrchwyd y dyluniadau buddugol ac aethpwyd â nhw i Japan ac America a'u harddangos fel rhan o bortffolio masnachol.

## Darparu addysg entrepreneuriaeth effeithiol

Mae'r model ACPT yn diffinio beth mae addysg entrepreneuriaeth yn ei olygu yn ymarferol, gan ddarparu strwythur i ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm.

Mae dysgu gweithredol sy'n hyrwyddo creadigrwydd tra'n datblygu agweddau a sgiliau entrepreneuraidd wrth wraidd dysgu entrepreneuraidd. Ymhlith nodweddion allweddol addysgu effeithiol mae:

- hwyluso dysgu, yn hytrach na chyfarwyddo
- annog dysgwyr i fod yn annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- amlygu ac atgyfnerthu cysylltiadau â datblygiad personol a chymdeithasol
- cynllunio gweithgareddau datrys problemau ar gyfer grŵp/tîm sy'n ymwneud â materion go iawn
- mabwysiadu gweithgareddau sy'n apelio at arddulliau dysgu gwahanol dysgwyr
- helpu dysgwyr i werthuso canlyniadau eu penderfyniadau.

Defnyddir cyfuniad o ddulliau megis amser cwricwlaidd penodedig, prosiectau trawsgwricwlaidd, mentora cymheiriaid, diwrnodau amserlen ataliedig a gweithgareddau allgyrsiol yn llwyddiannus i gyflwyno dysgu entrepreneuraidd a datblygu gallu entrepreneuraidd.

Darperir cyfleoedd am addysg entrepreneuriaeth hefyd drwy ymwneud â mentrau bach byrdymor, a chwmnïau/mentrau cymdeithasol wedi eu rhedeg gan ddysgwyr sy'n cynnig cyfleoedd go iawn i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae gweithgareddau entrepreneuraidd ar sail prosiectau sy'n ategu dysgu yn y dosbarth yn gwella ymgysylltiad dysgwyr ag ystod o feysydd pwnc a'u dealltwriaeth ohonyn nhw drwy arddangos perthnasedd eu dysgu i'w bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r coleg. Pan fydd prosiectau o'r fath yn rhai trawsgwricwlaidd, bydd y dysgwyr yn gweld sut mae pynciau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd a sut y gellir cymhwyso'r sgiliau a ddatblygir ganddyn nhw mewn bywyd go iawn.

Yn ddelfrydol dylai prosiectau o'r fath hyrwyddo cydraddoldeb a chynnwys cyfleoedd i:

- ddysgwyr weithio'n annibynnol
- cymryd risg a'r posibilrwydd o fethu
- trefnu pobl, adnoddau a gweithgareddau
- datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh
- datblygu gallu ariannol
- ymgysylltu â'r gymuned leol a/neu gyflogwyr
- ymchwilio i faterion moesol a moesegol sy'n gysylltiedig â busnes.

Mae'r fath arloesedd cwricwlaidd yn galw am ddull gweithredu cydlynol o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) gan arweinwyr ysgolion/colegau. Mae gan yr unigolyn sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysg entrepreneuriaeth rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y DPP parhaus sydd ei angen arnyn nhw. Mae rhai ysgolion a cholegau yn creu grŵp trawsgwricwlaidd entrepreneuraidd o gydweithwyr wedi ei arwain gan ymholiadau sydd â phrofiad o ddarparu addysg entrepreneuriaeth er mwyn:

- datblygu adnoddau i ategu'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm
- arbrofi gyda dulliau gweithredu newydd
- rhannu arfer effeithiol
- darparu mentora a chymorth unigol i unigolion.

## Cydnabod cyflawniad dysgwyr

Mae gan ysgolion a cholegau sy'n ymgorffori darpariaeth yn llwyddiannus ddealltwriaeth glir hefyd o pam y dylid cydnabod cyflawniad mewn addysg entrepreneuriaeth, ei asesu, adrodd arno a, lle bo'n bosibl, ei achredu.

Mae ffactorau sy'n ategu asesiad cadarn ac effeithiol yn cynnwys dull gweithredu sy'n:

- adeiladu ar raglen sefydledig o addysg entrepreneuriaeth
- cefnogi dysgu ac yn caniatáu ar gyfer dilyniant dysgwyr, e.e. drwy asesu lefelau gwahanol o allu, a thrwy helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd, nodi eu cryfderau neu wendidau a phennu targedau personol ar gyfer gwella yn y dyfodol
- darparu cyfleoedd ar gyfer asesu sgiliau entrepreneuraidd, e.e. datrys problemau, rheoli risg/cymryd risg, cyfathrebu, gwaith tîm, gwneud penderfyniadau, arweinyddiaeth, creadigrwydd ac arloesedd.

Mae angen i ddysgwyr fod yn hyddysg mewn entrepreneuriaeth – mae angen iddyn nhw wybod beth yw gallu entrepreneuraidd fel y gallan nhw hunanasesu p'un a ydyn nhw wedi datblygu'r sgiliau ai peidio. Mae dulliau gweithredu llwyddiannus yn cynnwys:

- offer ar-lein sy'n cyfeirio at feini prawf a ddefnyddir gan ddysgwyr i hunanasesu eu galluoedd entrepreneuraidd eu hunain. Yna maen nhw'n defnyddio'r canfyddiadau i bennu targedau i'w hunain ar gyfer gwella
- asesiad gan athrawon, asesiad cymheiriaid neu hunanasesiad o alluoedd entrepreneuraidd a ddangosir mewn gwersi ar wahân neu brosiectau trawsgwricwlaidd
- cofnod/log/pasbort entrepreneuriaeth – llyfrynnau sy'n nodi dilyniant mewn galluoedd, agweddau, ymddygiad, gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau entrepreneuraidd sy'n galluogi dysgwyr i brofi eu bod wedi defnyddio pob sgil entrepreneuraidd (yn erbyn meini prawf diffiniedig), gan ddangos sut maen nhw wedi cyfleu pob un o'r galluoedd entrepreneuraidd
- cynlluniau gwobrwyo sy'n cydnabod a dathlu gallu entrepreneuraidd dysgwyr
- rhaglenni wedi'u hachredu'n ffurfiol sy'n cynnwys asesu sgiliau.

Mae dulliau gweithredu o’r fath yn dangos i ddysgwyr faint o ddysgu entrepreneuraidd a gân nhw ar draws y cwricwlwm a’i werth i’w hastudiaethau. Mae hefyd yn eu galluogi i fynegi gwerth eu sgiliau.

Drwy ddewis ehangach o fewn y cwricwlwm ardal leol, mae gan bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed gyfleoedd i achredu eu cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd. Er enghraifft, mae entrepreneuriaeth wrth wraidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae’n ofynnol i bob dysgwr ar lefel sylfaen, canolradd ac uwch ymwneud â gweithgaredd menter tîm.

Gellir defnyddio addysg entrepreneuriaeth hefyd fel cyd-destun i gynhyrchu tystiolaeth bortffolio er mwyn asesu Sgiliau Hanfodol a Sgiliau Allweddol Ehangach dysgwyr, yn annibynnol neu fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. I gael rhagor o fanylion am gymwysterau lle mae angen rhywfaint o ddysgu sy’n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth, ewch i Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW) yn: www.daqw.org.uk/

## Monitro a gwerthuso

Mae monitro cynnydd datblygiad cwricwlaidd a gwerthuso deilliannau darpariaeth ysgol gyfan/coleg yn hollbwysig er mwyn creu diwylliant entrepreneuraidd yn llwyddiannus. Bydd adolygiad blynyddol o’r polisi addysg entrepreneuriaeth a’r cynllun datblygu yn helpu i bennu’r meini prawf ar gyfer barnu llwyddiant.

Dylai gwaith monitro a gwerthuso ganolbwyntio ar ansawdd y profiadau dysgu, rhai cwricwlaidd ac allgyrsiol, a dod i benderfyniadau ynglŷn â deilliannau byrdymor gweithgareddau dysgu i ddysgwyr. Er enghraifft:

- Dysgu – Pa sgiliau, gwybodaeth, neu ddealltwriaeth newydd a gawson nhw?
- Newid ymddygiadol – Beth mae dysgwyr yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i hyn?
- Effaith – Pa wahaniaeth y mae’r dysgu a'r newidiadau ymddygiadol wedi ei wneud?

Mae angen i ddangosyddion cynnydd fod yn fesuradwy. Mae ‘teimlo’ yn fwy entrepreneuraidd yn oddrychol iawn, ond gellir asesu dealltwriaeth, sgiliau ac ymddygiad dysgwyr. Ymhlith y cwestiynau y byddwch am eu hystyried o bosibl mae’r canlynol.

- Sut y byddwch yn mesur a gyflawnwyd amcanion cynlluniedig?
- Sut y byddwch yn gwybod a yw diwylliant yr ysgol/coleg yn fwy entrepreneuraidd?
- Pa weithgareddau fydd yn cael eu cynnal?
- Beth yw nodweddion dysgwr entrepreneuraidd?
- Pa gymwyseddau y maen nhw wedi eu datblygu?
- Beth fydd ymddygiad staff a dysgwyr?

Dylid hefyd roi ystyriaeth i'r mathau gwahanol o dystiolaeth i'w chasglu i ddangos effeithiau'r rhaglen. Mae tystiolaeth o'r sgiliau entrepreneuraidd a ddatblygwyd gan ddysgwyr unigol, ac a gofnodwyd drwy ddefnyddio systemau olrhain sgiliau, yn ei gwneud yn bosibl i effaith addysg entrepreneuriaeth gael ei gwerthuso. Dylai tystiolaeth gan athrawon, partneriaid a rhieni/gofalwyr lywio'r broses werthuso.

Mae gwerthuso darpariaeth drwy arsylwi gwersi fesul grŵp blwyddyn ac ardal cwricwlwm yn golygu bod eraill yn gallu craffu ar arfer ystafell ddosbarth a'i ddatblygiad. Wedi'i ategu gan adolygiadau gydag arweinwyr pwnc i asesu cynlluniau ar gyfer datblygiad pellach, mae dull gweithredu o'r fath yn cynnig her a chefnogaeth, yn annog cynllunio trawsgwricwlaidd ac yn sicrhau y defnyddir data gwerthuso i lywio a datblygu dysgu ac addysgu entrepreneuriaeth yn y dyfodol.

Wrth fonitro a gwerthuso datblygiadau cwricwlaidd, mae'n bwysig osgoi creu unrhyw weithdrefnau newydd neu ychwanegol at ddibenion gwerthuso ac atebolrwydd. Gellir cael tystiolaeth o ddarpariaeth o ran addysg entrepreneuriaeth yn hawdd drwy hunanwerthusiad ysgol yn seiliedig ar y dangosyddion ansawdd o Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae hefyd yn statudol ofynnol i Estyn gyflwyno adroddiad ar ansawdd y ddarpariaeth mewn unrhyw leoliad dysgu a arolygir ganddo. Gall adroddiadau o'r fath hefyd roi tystiolaeth ddefnyddiol i werthuso'r ddarpariaeth o ran addysg entrepreneuriaeth.

# Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau i ymarferwyr sy'n gyfrifol am gydlynu addysg entrepreneuriaeth ar weithio mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach wrth gynllunio a darparu addysg entrepreneuriaeth.

Mae ysgolion a cholegau entrepreneuraidd yn flaengar ac yn agor eu hadnoddau i'r gymuned, gan ddarparu gwasanaethau ar ei chyfer. Maen nhw'n effro i angen busnesau lleol am sgiliau ac yn sefydlu partneriaethau parhaol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr gyda chyflogwyr a sefydliadau cymunedol.

Y rhaglenni entrepreneuriaeth mwyaf effeithiol yw'r rhai sydd yn yr ysgolion a'r colegau hynny sy'n cydweithio ag asiantaethau allanol a chyflogwyr. Mae pobl â phrofiadau bywyd penodol yn ychwanegu persbectif newydd i raglenni addysg entrepreneuriaeth. Drwy archwilio'r ddarpariaeth gyfredol bydd modd nodi bylchau ac felly nodi lle y gall darparwyr allanol helpu i ddatblygu pecyn o gymorth wedi ei deilwra heb ddyblygu gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli.

Gall elfennau o addysg entrepreneuriaeth gael eu darparu gan ystod eang o bartneriaid sy'n cynnwys:

- Gyrfa Cymru
- cyflogwyr – mae'r rhan a chwaraeir gan gyflogwyr yn hollbwysig i ddod â byd gwaith yn fyw a helpu dysgwyr ac athrawon fel ei gilydd i weld sut mae gweithgareddau dysgu yn yr ysgol yn berthnasol i'r gweithle
- modelau rôl
- addysgwyr sy'n gymheiriaid
- cyn-ddysgwyr yr ysgol
- sefydliadau partner cymunedol sy'n hwyluso cyfleoedd dysgu profiadol fel rhan o'u gweithgareddau cyswllt busnes addysg.

Mae partneriaid cymunedol yn cynnig golwg newydd ar bethau ac yn cynnig gwybodaeth arbenigol, profiad ac adnoddau. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb hefyd mewn prosiectau cymunedol, elusennau ac achosion da. Mae gweithio gyda phartneriaid cymunedol yn cynnig cyfleoedd bywyd go iawn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd tra'n gwneud rhywbeth sy'n bwysig iddyn nhw.

Yn aml mae llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr yn adnodd nas defnyddir. Fodd bynnag, cyn y gallan nhw gyfrannu, mae angen eu gwneud yn ymwybodol o werth addysg entrepreneuriaeth. Efallai y byddan nhw am wybod sut mae addysg entrepreneuriaeth:

- yn ategu dysgu ym mhob cyfnod allweddol
- yn cael ei darparu yn yr ysgol/coleg, a rôl partneriaid ehangach, e.e. darparwyr allanol a chyflogwyr lleol
- yn cynyddu hyder ariannol ac yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol
- yn cyfrannu at gymwysterau fel Sgiliau Hanfodol Cymru, TGAU, Safon Uwch a CBC
- yn cynyddu cyflogadwyedd.

Ni ddylid gwahodd pobl i fynd i ysgol neu goleg er mwyn helpu i ddarparu addysg entrepreneuraidd oni bai eu bod yn rhan o raglen gynlluniedig. Cyfrifoldeb yr ysgol/coleg yw rheoli'r rhaglen addysg entrepreneuraidd a chynllunio'n ofalus y rhan a chwaraeir gan bartneriaid cymunedol wrth ddarparu gwersi. Rhaid bod trefniadau effeithiol ar waith mewn ysgolion i ddiogelu a hybu lles eu dysgwyr a dylai pob ymwelydd gydymffurfio â'r trefniadau hyn.

Dylai effeithiolrwydd darparwyr allanol gael ei adolygu gan staff a dysgwyr a dylai'r adborth hwn gyfrannu at werthuso effeithiolrwydd y rhaglen gyfan.

## Astudiaeth achos: Gweithio mewn partneriaeth i ymgorffori addysg entrepreneuraidd mewn addysg bellach

Mae'n cymryd amser i ymgorffori'r gwaith o ddysgu ac addysgu gweithgareddau a sgiliau entrepreneuraidd o fewn sefydliad. Mae hyfforddiant staff yn hollbwysig er mwyn i golegau ddatblygu a gweithredu dull gweithredu coleg cyfan yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn helpu staff i ddeall yr egwyddorion dan sylw, yn cyfleu'r model ACPT ac yn sicrhau yr ymgorfforir sgiliau entrepreneuriaeth. Mae'r dull gweithredu hwn wedi gweithio'n dda ym mhartneriaeth De-orllewin Cymru lle mae Coleg Gŵyr, Abertawe a Choleg Castell-nedd Port Talbot wedi cydweithio i gynnwys cyfadrannau ym mhob coleg ac ar draws pob coleg mewn amrywiaeth o weithgareddau DPP entrepreneuraidd gwahanol.

O dan y model hwn, mae'r Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth ym mhob coleg yn cefnogi pob cyfadran gyda hyfforddiant ar ymgorffori entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm. Maen nhw'n defnyddio deunyddiau Dynamo ac adnoddau eraill, ac maen nhw ar gael i siarad â staff mewn cyfarfodydd, trefnu sesiynau hyfforddi neu weithio gydag aelodau unigol o staff ar eu pen eu hunain os oes angen. Mae rheolwyr yn mynd i sesiynau tiwtorial i gefnogi staff i gynnal sesiynau entrepreneuriaeth os a phryd y bydd angen cymorth. Bwriedir i'r dull gweithredu ymarferol hwn roi hyder i staff ac mae'n hwyluso'r gwaith o rannu arfer da ymhlith pob aelod o staff.

Cynigir diwrnodau entrepreneuriaeth i bob aelod o staff ar draws y coleg gyda modelau rôl, gweithdai a gweithgareddau i hyrwyddo addysg entrepreneuriaeth. Trefnir gweithdai a chynhelir cymorthfeydd busnes yn gyson i hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr yn y ddau goleg. Mae digwyddiadau arloesol fel Her Menter Fyd-eang a chystadlaethau tebyg eraill yn gwella'r cwricwlwm, yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr fod yn arloesol ac yn eu helpu i feithrin eu sgiliau ACPT.

# Atodiad A: Templed sampl o bolisi addysg entrepreneuriaeth

## Cyflwyniad

Esboniad byr i ddangos sut mae'r polisi yn cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a chanllawiau Llywodraeth Cymru megis:

- *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010–15*
- gofynion *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*.

## Rhesymeg a nodau

Dylai'r polisi:

- ystyried datganiad cenhadaeth yr ysgol/coleg
- amlinellu nodau addysg entrepreneuriaeth sy'n benodol i'r lleoliad.

## Cysylltiadau â datganiadau polisi eraill

Polisïau cysylltiedig a allai gynnwys y canlynol.

- Diogelu/amddiffyn plant.
- Cyfrinachedd.
- Cydraddoldeb.

## Rheolaeth a threfniadaeth addysg rhyw a pherthnasoedd

Disgrifiad byr o rolau a chyfrifoldebau'r corff llywodraethu, uwch arweinwyr a'r cydlynydd cwricwlwm ar gyfer addysg entrepreneuriaeth. Gwybodaeth sy'n benodol i'r lleoliad o ran:

- sut mae addysg entrepreneuriaeth yn ffurfio rhan o ddarpariaeth gyrfaoedd a'r byd gwaith yr ysgol/coleg
- lle y darperir addysg entrepreneuriaeth ar draws y cwricwlwm.

## Cyflawni'r rhaglen addysg entrepreneuriaeth

Disgrifiad byr o:

- sut y cyflawnir y rhaglen addysg entrepreneuriaeth
- neilltuo amser
- pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhaglen, e.e. athro dosbarth/pwnc neu athrawes ddosbarth/bwnc, tiwtor dosbarth, aelodau staff wedi eu hyfforddi'n arbennig, asiantaethau allanol/cyflogwyr
- sut y diwellir anghenion pob dysgwr.

## Cynnwys y rhaglen addysg entrepreneuriaeth

Disgrifiad byr yn dangos parhad a dilyniant ym mhob cyfnod allweddol o ddeilliannau dysgu perthnasol o *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* a deilliannau sy'n benodol i'r ysgol, wedi'u cyflwyno o bosibl fel grid trosolwg o'r cwricwlwm.

## Cynnwys sefydliadau allanol

Manylion am ba sefydliadau allanol, os o gwbl, sy'n cyfrannu'n rheolaidd at y gwaith o gyflawni'r rhaglen addysg entrepreneuriaeth.

## Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Testun byr i egluro'r trefniadau ar gyfer:

- nodi anghenion datblygiad proffesiynol staff
- diwallu anghenion hyfforddi staff allweddol
- lledaenu gwybodaeth berthnasol i aelodau eraill o staff
- nodi adnoddau addas
- rhannu arfer effeithiol.

## Gweithio gyda rhieni/gofalwyr

Disgrifio'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y polisi ar gael i rieni/gofalwyr, e.e. ym mhrosbectws yr ysgol/coleg, deunyddiau cyfarwyddyd cwricwlaidd eraill, gwefan yr ysgol/coleg.

## Monitro a gwerthuso

Testun byr i egluro:

- pwy sy'n gyfrifol am fonitro dysgu, addysgu a safonau mewn addysg entrepreneuriaeth
- y trefniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc.

## Trefniadau ar gyfer adolygu a diweddaru'r polisi

- Y dyddiad y gwnaeth staff/llywodraethwyr gytuno ar y polisi.
- Y trefniadau ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc.
- Pa mor aml y caiff y polisi ei adolygu.

# Atodiad B: Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth

Diben y gridiau hyn yw darparu fframwaith fel y gall arweinwyr ysgolion/colegau ddatblygu ethos entrepreneuraidd ac ymgorffori dysgu entrepreneuriaeth ar draws y cwricwlwm.

Fel archwiliad o ddilyniant maen nhw'n helpu ysgolion a cholegau i werthuso eu lefelau cyfredol eu hunain o ymwneud ag addysg entrepreneuriaeth. Rhoddir dangosyddion er mwyn helpu i asesu'r lefelau, o sylfaenol i sefydledig, y mae sefydliad yn gweithio arnyn nhw ar hyn o bryd. Bydd gwerthuso lefel yr ymwneud ag addysg entrepreneuriaeth yn helpu i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Arweinyddiaeth** | Dim cynllunio strategol ar gyfer entrepreneuriaeth. | Cynhwysir entrepreneuriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol/coleg. | Cynhwysir entrepreneuriaeth mewn cynlluniau datblygu adrannol/pwnc. | Mae gan gynlluniau datblygu adrannol/pwnc amcanion mesuradwy penodol ar gyfer entrepreneuriaeth. |
| | Dim polisi ar gyfer entrepreneuriaeth. | Polisi ar waith gyda diffiniad clir o entrepreneuriaeth. | Adolygir y polisi yn rheolaidd gyda chyfraniadau gan ddysgwyr a sefydliadau partner. | Mae'r polisi yn ymgorffori gweledigaeth yr ysgol ar gyfer datblygu entrepreneuriaeth yn y dyfodol. |
| | Dim perchenogaeth glir o entrepreneuriaeth na chyfrifoldeb amdani. | Mae uwch arweinwyr wedi trafod entrepreneuriaeth. | Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir a diffinnir cyfrifoldebau penodol am entrepreneuriaeth. | Mae arweinwyr ar bob lefel yn hyderus yn eu rôl o hyrwyddo entrepreneuriaeth. |
| | Dim cyllideb ar wahân ar gyfer entrepreneuriaeth. | Dim cyllideb, fodd bynnag datblygir adnoddau yn fewnol. | Cyllideb gytûn ac adnoddau addysgu digonol i ddarparu dysgu entrepreneuriaeth ym mhob cyfnod allweddol. | Cyllideb wedi'i dyrannu a chaiff adnoddau eu hadolygu'n gyson i adlewyrchu'r meddylfryd cyfredol a diwallu angen y dysgwr. |
| | Entrepreneuriaeth yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel 'menter arall'. | Mae rhai aelodau staff yn ymwybodol o entrepreneuriaeth drwy DPP neu gyfrifoldebau'r cwricwlwm. | Mae'r tîm arwain wedi ymgynghori â staff i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin. | Gweledigaeth glir ar gyfer entrepreneuriaeth sy'n rhan graidd o athroniaeth ac arfer sefydliadol. |

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Arweinyddiaeth (parhad)** | Nid yw staff yn llwyr ymrwymedig i ddatblygu deilliannau dysgu entrepreneuraidd. | Codi ymwybyddiaeth staff o'r ffyrdd y maen nhw eisoes yn addysgu entrepreneuriaeth. | Mae staff yn llwyr ymwybodol o entrepreneuriaeth a chaiff ei thrafod yn gyson mewn cyfarfodydd staff. | Mae staff yn ymrwymedig i entrepreneuriaeth o fewn yr ysgol/coleg a'r gymuned leol. |
| | Nid ymgynghorir â dysgwyr ynghylch entrepreneuriaeth. | Ymgynghorir â dysgwyr ynghylch cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd. | Mae dysgwyr yn gwerthuso ac yn myfyrio ar eu profiadau dysgu entrepreneuraidd ac yn hunanasesu eu galluoedd. | Mae dysgwyr yn gwneud awgrymiadau rheolaidd ar gyfer arwain arferion entrepreneuraidd ac yn flaengar iawn yn hynny o beth. |
| | Ddim yn cydnabod dysgu entrepreneuraidd. | Mae system wobrwyo yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniad entrepreneuraidd. | Darperir cyfleoedd i achredu dysgu entrepreneuraidd allanol. | Mae dysgu entrepreneuraidd wedi'i sefydlu fel hawl i bob dysgwr. |

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Dysgu ac addysgu** | Cynhaliwyd archwiliad entrepreneuraidd ond anaml y caiff deilliannau eu rhannu na'u defnyddio i lywio cynllunio neu arfer. | Cwblhawyd archwiliad cwricwlaidd o addysg entrepreneuriaeth a rhoddwyd cyngor ac arweiniad ar sut i gyflwyno entrepreneuriaeth mewn meysydd pwnc. | Cwblhawyd archwiliad systematig ar gyfer pob rhan o'r sefydliad o addysg entrepreneuriaeth ac mae'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb arweiniol am addysg entrepreneuriaeth yn rhannu gwybodaeth â phob aelod o staff. | Mae portffolio sy'n dangos dilyniant mewn entrepreneuriaeth wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson.<br><br>Rhennir arfer effeithiol â phob aelod o staff. |
| | Cyfyngir y sylw a roddir i entrepreneuriaeth i un neu ddau o feysydd pwnc. | Ymdrinnir yn benodol ag entrepreneuriaeth mewn rhai pynciau. | Cynllunnir ar gyfer entrepreneuriaeth ac ymdrinnir â hi mewn ystod eang o bynciau. | Caiff entrepreneuriaeth ei hintegreiddio, lle y bo'n briodol, ar draws y cwricwlwm cyfan. |
| | Ni chaiff entrepreneuriaeth ei hachredu. | Ymdrinnir ag entrepreneuriaeth yng ngofynion un neu ddau o gyrsiau a achredir yn allanol. | Adlewyrchir entrepreneuriaeth yng ngofynion nifer gynyddol o gyrsiau a achredir yn allanol. | Mae mentrau ysgol gyfan a gweithgareddau allgyrsiol yn ategu'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm, e.e. clwb entrepreneuriaeth 'y tu allan i oriau' y mae nifer dda yn ei fynychu.<br><br>Cymryd rhan mewn rhaglen genedlaethol neu gynllun gwobrwyo perthnasol. |

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Dysgu ac addysgu (parhad)** | Cyflawnir gweithgareddau entrepreneuriaeth yn gyfan gwbl gan ddarparwyr allanol. | Cyflawnir gweithgareddau entrepreneuriaeth gan staff a darparwyr allanol. | Mae staff yn teimlo'n hyderus ynghylch gweithredu entrepreneuriaeth yn yr ystafell ddosbarth a chaiff gweithgareddau eu cynllunio a'u cyflawni ar y cyd gan staff a darparwyr allanol. | Mae staff yn hwyluso gweithgareddau dysgu drwy brofiadau sy'n gyfranogol ac yn hyrwyddo datblygiad sgiliau entrepreneuraidd. |
| | Ymdrinnir ag entrepreneuriaeth drwy ddigwyddiadau 'untro', sy'n ymwneud yn bennaf â menter. | Anogir staff i ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu entrepreneuriaeth drwy gydol y cwricwlwm a thu hwnt i sesiynau 'oddi ar yr amserlen' estynedig. | Amlygir cyfleoedd ar gyfer dysgu entrepreneuraidd mewn cynlluniau gwersi ac maen nhw'n cynnwys grwpiau blwyddyn gyfan sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysg entrepreneuriaeth. | Caiff datblygiad dealltwriaeth, sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd ei nodi'n glir mewn gwaith cynllunio byrdymor a thymor canolig. |
| | Mae gweithgareddau DPP untro sy'n gysylltiedig ag addysg entrepreneuriaeth wedi cael eu cynnal. | Cafodd staff gyfle i fynychu sesiynau DPP ar entrepreneuriaeth a ddarparwyd gan sefydliadau allanol. | Mae pob aelod o staff yn cael DPP ar entrepreneuriaeth, gan adeiladu ar yr ystod o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd eisoes yn bodoli yn fewnol. | Rhaglen DPP strwythuredig sy'n galluogi staff i ymchwilio i ddysgu ac addysgu entrepreneuraidd a'u gwerthuso.<br><br>Mae clystyrau ysgol yn cydweithio i ddatblygu a rhannu arfer da. |

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Dysgu ac addysgu (parhad)** | Dim gwaith monitro na gwerthuso effaith. | Cyfyngir monitro a gwerthuso i sesiynau amserlen ataliedig. | Caiff y ddarpariaeth o ran entrepreneuriaeth ar draws y cwricwlwm ei monitro a chaiff deilliannau ar gyfer dysgwyr eu gwerthuso. | Mae hunanwerthuso yn adlewyrchu dilyniant mewn entrepreneuriaeth ac yn nodi camau gweithredu yn y dyfodol sy'n ofynnol.<br><br>Anogir staff i arsylwi gwersi ei gilydd er mwyn dysgu ganddyn nhw am ddulliau gwahanol. |
| | Mae dealltwriaeth y dysgwyr o bwysigrwydd entrepreneuriaeth yn gyfyngedig. | Nid yw dysgwyr yn arddangos ymddygiad entrepreneuraidd. | Rhennir deilliannau dysgu entrepreneuriaeth â dysgwyr sy'n gynyddol yn gallu cymhwyso eu dysgu ar draws pynciau ac maen nhw'n eu deall hefyd. | Mae dysgwyr yn cymhwyso eu dealltwriaeth a'u sgiliau entrepreneuraidd yn hyderus. |
| | Nid yw dysgwyr yn arddangos sgiliau nac agweddau entrepreneuraidd. | Mae dysgwyr yn arddangos sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd sy'n datblygu.<br><br>Prin yw'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos ymddygiad entrepreneuraidd, e.e. digwyddiadau codi arian i elusen. | Mae dysgwyr yn arddangos dull gweithredu entrepreneuraidd sy'n datblygu drwy gydol eu hamser yn yr ysgol neu goleg. | Ymgorfforir sgiliau entrepreneuraidd mewn ymddygiadau dysgu. |

| Cyflawni dilyniant mewn entrepreneuriaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Sylfaenol** | **Yn cael ei datblygu** | **Wedi ei datblygu** | **Sefydledig** |
| **Partneriaethau** | Nid yw busnesau na sefydliadau cymunedol yn ymwneud â hyn. | Cyflwyniadau codi ymwybyddiaeth gan Fodelau Rôl Dynamo, sy’n canolbwyntio ar brofiad entrepreneur, gan gynnwys sesiwn holi ac ateb gyda’r ymwelydd. | Cyfraniadau sy’n gysylltiedig â phwnc gan gynrychiolwyr o’r byd gwaith ynghyd â chynnwys ymwelwyr o fusnesau neu sefydliadau cymunedol i weithredu fel mentoriaid ar gyfer gweithgareddau dysgu. | Caiff y staff eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am drefnu cyfraniad cyflogwyr o fewn eu meysydd pwnc eu hunain. |
| | Nid oes cysylltiadau â swyddogion awdurdod lleol na chwmnïau lleol/rhanbarthol sy’n cynnig eu cyfraniad i’r cwricwlwm wedi eu sefydlu. | Cyswllt cychwynnol wedi’i wneud â swyddogion ALl a phartneriaid allanol perthnasol. | Cydweithio effeithiol â swyddogion ALl a phartneriaid allanol perthnasol. | Cysylltiadau cydlynol, sefydledig ar waith gyda swyddogion ALl a phartneriaid allanol perthnasol. |
| | Nid yw gwybodaeth am addysg entrepreneuriaeth wedi’i rhannu â rhieni/gofalwyr. | Mae llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o entrepreneuriaeth, e.e. caiff erthyglau am weithgareddau dysgu entrepreneuriaeth eu cynnwys mewn cylchlythyrau. | Darperir cyfleoedd i rannu dysgu ynghylch entrepreneuriaeth rhwng dysgwyr a’u rhieni/gofalwyr. | Mae’r ysgol/coleg yn ganolbwynt ar gyfer entrepreneuriaeth yn y gymuned leol. |